

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Systemau'r Cyngor a Seilwaith TGCh

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data a deddfwriaeth berthnasol.

Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Rebecca Walsh - Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu:	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Adran TGCh
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Richards Evans
Cyfeiriad:	CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am y modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu data personol oddi fewn i'n rhwydwaith gyfrifiadurol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym ni'n cadw a defnyddio gwybodaeth amdanoch chi. Mae'n ofynnol ein bod ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn eich hysbysu am y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw contract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarar yr hysbysiad hwn ar unrhyw adeg os fyddwn yn gwneud hynny byddwn yn sicrhau bod yna gopi diweddar o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am eich prosesu data a gellir cael gafael arno ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i'n defnydd o'n systemau cyfrifiadurol a'r gwahanol feddalwedd rydym yn ei ddefnyddio i gadw a phrosesu eich data personol. Mae'r hysbysiad hwn hefyd yn berthnasol i'r dulliau a ddefnyddiwyd o'ch data personol ar ffurf electronig, er enghraifft drwy ein ffurflenni casglu data ar-lein neu drwy e-bost.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Yn yr hysbysiad hwn pan fyddwn yn cyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at yr Adran TGCh sy'n gyfrifol am weinyddu isadeiledd TGCh y Cyngor.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i'r holl unigolion sy'n defnyddio'r Cyngor, sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd, contractwyr, Cynghorwyr, ymwelwyr â'n hadeiladau, preswylwyr, aelodau o staff, gwirfoddolwyr ac yn y blaen.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r

Swyddog â'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethiant Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Ffôn: 01685 725000

2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH

Rydym yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi a'i gadw oddi fewn i'n systemau cyfrifiadurol. Nid yw'r adran yn casglu unrhyw ddata personol yn uniongyrchol oddi wrthyhych chi ond gan ei bod yn rheoli isadeiledd TGCh, y mae'n cartrefu systemau cyfrifiadurol y Cyngor ac yn hynny o beth yn gweithredu'r holl weithgaredd oddi fewn i'n systemau. Bydd ein systemau cyfrifiadurol yn cadw amrywiaeth o fathau o ddata personol a fydd yn cynnwys:

- Data adnabod a chysylltu fel eich enw a chyfeiriad sy'n cael eu cadw yn ein meddalwedd.
- Data ariannol fel manylion talu, manylion banc, cyflog ac yn y blaen
- Data cyflogaeth
- Data addysg
- Data geowagle sy'n berthnasol i ddata lleoliad a gaiff ei gipio drwy signalau GPS neu gyfeiriad IP
- Data ffordd o fyw fel eich ethnigrwydd, hil, disgrifiadau diwylliannol, aelodaeth ag undeb llafur, crefydd a gwybodaeth arall amrywiol sy'n berthnasol i'ch ffordd o fyw
- Data iechyd
- Data troseddol

Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal neu gynorthwyo gyda chynnal ein systemau cyfrifiadurol, ni fydd yr adran yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth sy'n berthnasol i hyn isod.

3. SUT YDYM NI'N DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Dim ond pan fydd y ddeddfwriaeth diogelu data yn ein caniatáu ni i wneud hynny y bydd yr Adran yn defnyddio'ch data personol. Bydd y rhain yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan o dan Reoliadau Cyffredinol Diogelu Data a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fo angen i ni gydymffurfio ag oblygiadau cyfreithiol neu gynorthwyo gydag ymchwiliad o dan y cyfreithiau canlynol:
 - Deddf Camddefnyddio Cyfrifiadurol 1990 – creu troseddau o fynediad diawdurdod ac ymyrraeth â chyfrifiadurol a data
 - Deddf Cyfathrebu - creu troseddau o ddefnydd amhriodol o wasanaeth cyfathrebiadau cyhoeddus (s.127) a chaffaeliad anonest o wasanaethau cyfathrebiadau electronig (s.125)
 - Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 – rheoli rhyngdoriad traffig ar rwydweithiau. Y mae hefyd yn creu pwerau i'r heddlu ac awdurdodau eraill sy'n ymchwilio fel ei fod yn

ofynnol i rwydweithiau ddarparu gwybodaeth am eu defnyddwyr a'u defnydd o'r rhwydweithiau

- Mae'r Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Rhyngdoriad gan Fusnesau ayyb at ddibenion Monitro a Chadw Cofnodion) 2018 – yn cynnwys rhyngdoriad at ddibenion busnes, er enghraifft gorfodi defnydd derbynol o bolisiau
 - Mae'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data - yn sefydlu gofynion ar unrhyw un sy'n cadw data personol ar gyfrifiadur neu unrhyw system ffeilio drefnus arall
 - Mae Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddiaeth CE) 2003 – yn cynnwys cyfyngiadau manwl ar ddefnydd o ddata personol mewn cyfathrebiadau electronig (er enghraifft anfon e-byst digymell), diwygiwyd gan Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddiaeth CU)(Diwygiad) 2011
 - Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, Adran 37 – creu troseddau sy'n berthnasol i greu, cyflenwi a chaffael offer a ddefnyddiwyd yn nhroseddau presennol Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.
2. Pan fo'i angen er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol fel darparu'r cyhoedd â'n gwasanaethau.
 3. Pan fo'n angenrheidiol i'n buddion cyfreithiol (neu rai trydydd parti) a'ch buddion chi ac nad yw hawliau sylfaenol yn goresgyn y buddion hynny.

Mae system gyfrifiadurol y Cyngor wedi ei llunio o gyfres o galedwedd a meddalwedd sy'n cael eu defnyddio i storio data'r defnyddiwr a'r client. Rydym yn gartref i amrywiol systemau ar ein rhwydwaith cyfrifiadurol sy'n galluogi'r Cyngor i rannu adnoddau ar draws adrannau er mwyn cyflenwi ein gwasanaethau i chi. Mae'r Cyngor yn defnyddio systemau a adeiledir mewn tŷ a systemau a gartrefir yn allanol i'n cynorthwyo ni i gyflenwi gwasanaeth.

4. SUT YDYM NI'N RHANNU EICH DATA PERSONOL

Gall Swyddogion TGCh gael mynediad at unrhyw ddata personol sy'n cael ei dderbyn drwy foddau electronig. Y Swyddog Diogelu Gwybodaeth sy'n gyfrifol am sicrhau fod yr holl wybodaeth a gedwir ar ein rhwydwaith yn ddiogel gan weithredu rheolau priodol i sicrhau fod yr holl ddata personol yn cael ei rannu ar draws ein rhwydwaith yn ddiogel. Dim ond â'r adran sy'n darparu'r gwasanaeth i chi fydd yr Adran TGCh yn rhannu eich gwybodaeth a chaiff hyn ei berfformio'n awtomatig drwy ddefnyddio ein systemau cyfrifiadurol.

Ni fydd yr Adran yn rhannu gwybodaeth ag unrhyw gorff allanol oni bai ei fod yn derbyn cais oddi wrth adran arall i drosglwyddo data mewn fformat diogel i sefydliad y tu allan. Bydd y wybodaeth hon yn parhau wedi ei hencryptio ac ni fydd mynediad ati gan yr Adran, dim ond ei throsglwyddo i'r sefydliad allanol perthnasol. Gellir dod o hyd i fanylion am y sefydliadau allanol hyn oddi fewn i hysbysiad preifatrwydd pob maes gwasanaeth.

Ni fydd yr Adran yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wledydd y tu allan i'r UE. Os fyddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag sy'n bosibl. Os fyddwn yn gwneud hynny gallwch ddisgwyl graddfa debyg o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth personol.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH A'I CHADW'N DDIOGEL

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig er mwyn cyflawni'r dibenion y cafodd ei gasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd yn ôl.

Mae manylion am unrhyw gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

Rydym wedi gosod mesurau diogelwch priodol mewn lle i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd diawdurdod, ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu'r mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond yn dilyn cyfarwyddyd gennym ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio gydag unrhyw amheuaeth o dor cyfraith o ran diogelwch a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am dor cyfraith pan fydd yn gyfreithlon i ni wneud hynny.

6. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw andanoch chi caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysrwydd preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru) Ffôn: 029 2067 8400

2^{il} Lawr

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

7. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a gwybodaeth bellach am ein sail gyfreithiol i brosesu, mynnwch weld ein polisi preifatrwydd cyflawn.